# Geirfa Allweddol

**Ahimsa** - yr egwyddor o beidio gwneud niwed i unrhyw beth byw.
**Balchder** - bod yn falch.
**Brahman** - y duw goruchaf mewn Hindŵaeth sy’n rhan o bopeth byw.
**Byd delfrydol** - byd perffaith.
**Ceiswyr lloches** - pobl sy’n gorfod ffoi o’u gwlad i geisio diogelwch mewn gwlad arall.
**Comisiynydd Plant Cymru** - Rocio Cifuentes yw Comisiynydd Plant Cymru; mae hi wedi llenwi’r rôl yma ers Ebrill 2022. Pwrpas ei swydd yw dweud wrth eraill am bwysigrwydd hawliau plant, ac i edrych ar sut mae penderfyniadau cyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yn effeithio ar hawliau plant.
**Cyfoes** - yn perthyn i neu'n digwydd yn y presennol.
**Dharma Hindŵaidd** - dysgeidiaeth Hindŵaidd
**Diwylliant** - y syniadau, arferion ac ymddygiad cymdeithasol sydd gan bobl neu gymdeithas benodol.
**Eisteddfod** - gŵyl genedlaethol yn y Gymraeg.
**Gair’N’** - y gair ‘nigger’ sy’n air o gasineb hiliol.
**Globaleiddio** - term a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae masnach a thechnoleg wedi gwneud y byd yn lle mwy cysylltiedig â rhyng-ddibynnol.
**Goddefgarwch** - bod yn fodlon goddef neu dderbyn syniadau a thraddodiadau gwahanol.
**Gwahaniaethu** - trin pobl yn wahanol, fel arfer mewn ffordd annheg, er enghraifft ar sail lliw eu croen.
**Hijab** - y benwisg mae rhai merched Mwslimaidd yn ei wisgo.
**Hiliaeth** - y gred bod gan wahanol hiliau nodweddion, galluoedd neu rinweddau gwahanol, yn enwedig er mwyn eu gwahaniaethu fel rhai israddol neu'n well na'i gilydd. Trin pobl yn wahanol oherwydd eu hil.
**Hunaniaeth** - pwy neu beth yw person neu beth.
**Langar** - pryd y mae pawb sy’n ymweld â gwrdwara Sikhaidd yn ei rannu.
**Mewnfudwyr** - pobl sy’n symud i wlad arall i fyw am nifer o resymau.
**Mosgiau** - mannau addoli crefydd Islam.
**Mwslimaidd** - yn ymwneud â chrefydd Islam.
**Nazi** - yr enw ar un oedd yn dilyn Hitler yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
**Rhagfarn** - barnu pobl heb fod gennych unrhyw wybodaeth, adnabyddiaeth na phrofiad ohonynt.
**Stereoteip** - delwedd neu syniad sefydlog a chyffredin, ac wedi'i or-symleiddio, o fath penodol o berson neu beth.
**Stereoteipio** - rhoi nodweddion unigolyn i grŵp cyfan.
**Terfysgwyr** - gair Cymraeg am ‘terrorist’.
**Traddodiad** - arferion neu gredoau o genhedlaeth i genhedlaeth, neu'r ffaith eu bod yn cael eu pasio ymlaen fel hyn.
**Treftadaeth** - yn ymwneud â phethau o werth pensaernïol, hanesyddol neu naturiol arbennig ac sy'n cael eu cadw ar gyfer y genedl.

**Treftadaeth Gymysg** - yn ymwneud â phethau o werth pensaernïol, hanesyddol neu naturiol arbennig sy'n cael eu cadw ar gyfer gwahanol genhedloedd.
**Undod Dynoliaeth** - y gred mewn Sikhaeth fod pawb yn gyfartal am eu bod wedi eu creu gan Dduw.
**Unigryw** - bod yr unig un o'i fath; yn annhebyg i unrhyw beth arall.
**Y Welsh Not** - darn o bren ar gortyn a roddwyd i blant a gawsai eu dal yn siarad Cymraeg mewn ysgolion yn y 19eg ganrif. Byddai'r plentyn oedd yn ei wisgo ar ddiwedd y dydd yn cael ei gosbi.